| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **1af o Fawrth, 2012** |
| **Teitl** | **Dyfodol Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Compact** |
| **Pwrpas** | **I benderfynu os yw'n addas i'r Cyngor gymeradwyo'r Compact** |
| **Argymhellion** | **Cymeradwyaeth Amodol** |
| **Awdur** | **Prif Weithredwr – Harry Thomas** |
| **Arweinydd Portffolio** | **Arweinydd y Cyngor –<br>Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |

1.0 Atodaf er sylw'r aelodau adroddiad a fu ger bron y Prif Bwyllgor Craffu a Bwrdd y Cyngor ar y 9fed a'r 14eg o Chwefror yn y drefn honno.

2.0 Penderfynodd Bwrdd y Cyngor fel a ganlyn:-

Cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn argymell y dylid cymeradwyo derbyn y Compact ar sail amodol gan nodi y bydd Gwynedd yn parhau i chwarae rhan gadarnhaol wrth gyflawni'r ymrwymiadau yn y Compact ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf llwyddiant y Cyngor:

- Manteision busnes cadarnhaol i'r Cyngor yn nhermau ariannol, perfformiad a gwella gwydnwch gwasanaeth.
- Gwell elw ar ein buddsoddiad, o safbwynt amser swyddogion ac aelodau a chostau eraill, o gymharu â chyfleoedd amgen am fuddion busnes a allai fod yn gydweithiol eu natur neu beidio.
- Gwarchod a chefnogi statws yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r sir.
- Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd derbyniol.
- Cadw ein rôl comisiynu.
- Dosbarthiad teg o gyfleoedd cyflogaeth.
- Lefelau derbyniol o risg.
- Yn nhermau daearyddiaeth, cydweithio ar draws ardaloedd sy'n dderbyniol i Gyngor Gwynedd (h.y. nid y patrwm cydweithio rhanbarthol o reidrwydd).
- Amserlenni reallistig.